**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrh. Yr Arglwydd Goldsmith CF
Cadeirydd, Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi

14 Hydref 2021

Annwyl Arglwydd Goldsmith

Cytundebau rhyngwladol

Fel yr amlinellwyd yn ein llythyr atoch ar 28 Medi 2021, mae fy Mhwyllgor yn gyfrifol am fonitro gweithrediad cytundebau rhyngwladol anfasnachol yn y Chweched Senedd, ac rydym wedi cytuno i rannu ein holl adroddiadau gyda chi ar ôl trafod pob cytundeb o'r fath.

Yn ystod ein cyfarfod ar 11 Hydref 2021 trafodwyd tri chytundeb rhyngwladol, a chytunwyd i nodi'r rhain er gwybodaeth yn unig. Efallai y byddech yn dymuno gwybod bod yr adran ar ddatganoli sydd fel arfer wedi'i chynnwys mewn memoranda esboniadol i gytundebau rhyngwladol ar goll o'r DU / Albania: Cytundeb Aildderbyn Pobl. Felly, nid oes dim gwybodaeth ar gael ynghylch a ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru wrth ddrafftio’r cytundeb hwn ac nid oes eglurder ychwaith ynghylch barn Llywodraeth y DU ar gymhwysedd deddfwriaethol datganoledig.

Mae ein hadroddiad diweddaraf yn amgaeedig er gwybodaeth ichi.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Senedd Cymru
Welsh Parliament